

Dau gi bach

Canwch rigwm unrhyw bryd. Gall eich plentyn ymuno yng ngeiriau neu symudiadau caneuon a rhigymau.

Maent wrth eu bodd yn clywed yr un gân drosodd a throsodd.

Gall hwiangerddi helpu'ch plentyn i ddysgu geiriau a rhifau newydd, a phan mae symudiadau'n gysylltiedig â'r geiriau, bydd yn gwella eu sgiliau symud a'u sgiliau rhythm.

Beth am roi cynnig ar yr un dros y dudalen?

AMSER I SIARAD - Dau gi bach

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Esgid newydd am bob troed;
Dau gi bach yn dwad adre
Wedi colli un o'u sgidie
Dau gi bach

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Dan droi fferau, dan droi troed;
Dau gi bach yn rhedeg adre
Blawd ac eisin hyd eu coese
Dau gi bach

Dau gi bach a'u bron yn wyn
Dau gi bach a'u llygaid syn
Dau gi bach yn dal i sbio
Dau gi bach sut r'ych chi heno
Dau gi bach

AWGRYM GWYCH:

Ymunwch yn y canu
a'r symudiadau er
mwyn cael ychydig
o hwyl gyda'ch
plentyn

